Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

# Elin Meek




## Bywgraffiad

Mae Elin Meek yn byw yn Abertawe, lle cafodd ei geni, er iddi gael ei magu yng Nghaerfyrddin. Ar ôl mynychu Ysgol y Dderwen ac Ysgol Ramadeg y Merched, aeth i Brifysgol Cymru, Aberystwyth i astudio Cymraeg ac Almaeneg. Treuliodd ddwy flynedd academiadd ym Mhrifysgol Freiburg. Hyfforddodd fel athrawes Ieithoedd Modern a Chymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd a bu'n dysgu mewn colegau trydyddol am gyfnod cyn treulio deng mlynedd yn Adran y Gymraeg, Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Gadawodd i weithio'n llawrydd fel cyfieithydd ac addasydd yn 2001 ac mae hi'n awdur rhai llyfrau i blant ac i oedolion sy'n dysgu Cymraeg hefyd.

Enillodd y llyfr *Cymru ar y Map*, ar y cyd â Valériane le Blond yr arlunydd Wobr Tir Na N-og yn 2019.

## Crynodeb:

*Byd y Gymraeg* yw ei llyfr diweddaraf i'w gyhoeddi gyda Rily– byd sy'n llawn geiriau, lliw, bywyd a chalon. Dewch ar daith i ganfod trysorau'r Gymraeg, o ystyr enwau lleoedd, i idiomau a diarhebion. Cewch grwydro maes yr Eisteddfod a dysgu am draddodiadau, taclo treigladau a phobi bara brith! Dyma lyfr godidog i blant ac oedolion i gael dysgu am Gymru a'r Gymraeg, a'i chyfraniad pwysig i'n byd.

### Pa ddylanwadau ac atgofion oedd yn sefyll allan yn dy blentyndod?

Ro'n i'n edrych ymlaen at dreulio wythnosau ar fferm fy mam-gu a'm tad-cu yng Ngheredigion bob haf er mwyn bod gyda'r cŵn: cŵn defaid a chorgwn. Roedd fy mam-gu arall yn byw yn Aberaeron ac mae atgofion hyfryd o aros gyda hi, mynd i'r traeth a chael hufen iâ mêl.

### Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?

Dwi'n aelod o glwb darllen yn Nhŷ Tawe, Abertawe, felly dwi'n darllen amrywiaeth o lyfrau Cymraeg o fis i fis. Darllen hamdden yn Saesneg ac Almaeneg – nofelau trosedd, yn enwedig cyfresi ditectifs penodol ac ambell un sy'n cyrraedd rhestri byr gwobrau mawr. Dwi'n hoffi nofelau hanesyddol yn Sbaeneg er mwyn dod i wybod rhagor am hanes Sbaen.

### Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnat yn ystod dy fywyd?

Mae llyfrgelloedd wedi bod yn ddylanwad enfawr. Dwi'n cofio mynd i lyfrgell Caerfyrddin, benthyg pentwr o lyfrau a mwynhau eu darllen. Yn fy arddegau ro'n i'n benthyg tapiau o gerddoriaeth glasurol o'r llyfrgell.

Wrth astudio, ro'n i'n mwynhau treulio amser yn y llyfrgell, er nad o'n i'n gweithio drwy'r amser, o bell ffordd!

Llyfrgell Sgeti yw fy llyfrgell leol nawr a dwi'n benthyg llyfrau ffeithiol fel arfer. Mae grŵp bach ohonon ni'n cwrdd yno i sgwrsio a gwau bob wythnos.

### Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Does dim angen deall pob gair, yn enwedig os wyt ti'n darllen yn dy ail neu drydedd iaith.

Os nad wyt ti'n hoffi darllen storïau, cofia am lyfrau ffeithiol hefyd. Chwilia am lyfrau am bynciau rwyt ti'n eu hoffi.

Os wyt ti wedi mwynhau gwaith un awdur, chwilia am ragor o lyfrau ganddo/ganddi.

Defnyddia dy lyfrgell leol a phaid ag ofni gofyn i lyfrgellydd am gyngor.

### Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di ...

Mae pethau gorau bywyd am ddim, gan gynnwys llyfrgelloedd!

RILY www.rily.co.uk

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru